Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Nodiadau Cyfarfodydd

Dyddiad y cyfarfod	**2il Chwefror, 2023.**
Presennol	John Jones (Cadeirydd), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Sarah Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Williams (Prenteg), Megan Lloyd Williams (Golan), Stephen Churchman, June Jones (Cynghorwyr Cyngor Gwynedd) Croesawyd Enid Egginton i'w chyfarfod cyntaf fel Cynghorydd dros Garndolbenmaen.
Ymddiheuriadau	Iddon Edwards, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Michael Jones (Garndolbenmaen)
Datgan Buddiant	Megan Lloyd Williams (Eitem 10) Richard Parry (Eitem 10)

Penderfyniadau

Etholiadau 2022	Clerc i anfon gwybodaeth am y trafferthion cafwyd ymlaen at Mel ab Owain, Un Llais Cymru er mwyn iddo ysgrifennu at y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Gwasanaeth ar ein rhan.
John Ystumllyn a Bwrdd Gwybodaeth	Clerc i barhau gyda gwneud cais i'r Loteri Genedlaethol ac i gysylltu gyda Chronfeydd arian eraill posib. Clerc i gysylltu â Choleg Llandrillo Menai, Safle Pwllheli i weld a fyddai diddordeb gan yr Adran Hanes / Gymraeg gydweithio â ni ar y prosiect.

Hwb Eifionydd	Clerc i gysylltu hefo'r Panel Cleifion i ddatgan siomedigrwydd nad oes cydnabyddiaeth/ateb wedi'i dderbyn i'r gwahoddiad.
Diffibriliwr Prenteg	Penderfynwyd defnyddio trydanwr y Gwasanaeth Ambiwlans. Clerc i wneud trosglwyddiad banc i dalu am y diffib.
Hysbysfwrdd Pentrefelin	Wedi derbyn pris o £250.00 gan Saer lleol i adeiladu hysbysfwrdd newydd gan ddefnyddio pren caled. Penderfynwyd derbyn y pris yma.
Rhoddion Ariannol	Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol: • Canolfan Gymdeithasol Golan: £300.00 • Canolfan Gymdeithasol Pentrefelin: £300.00 • Neuadd Goffa Penmorfa: £300.00 • Neuadd Prenteg: £300.00 • Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog: £300.00 • Eisteddfod Cylch Garndolbenmaen: £300.00 • Urdd Adran Eryri: £300.00 • Dawns i Bawb: £200.00
Penodi Archwilydd Mewnol	Penderfynwyd ail benodi Hughes Jones, Dyson. Clerc i gysylltu.
Cynllunio	NP2/16/447A – Gosod mast monopol 20m uchder, 3 antena, 3 caban offer ar dir Fferm Pen y Gaer, Garndolbenmaen – **Dim gwrthwynebiad.**